Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:

## Rheol Sefydlog 23 – Deisebau'r Cyhoedd

Mawrth 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell mân ddiwygiadau y gofynnodd y Pwyllgor Deisebau amdanynt i Reol Sefydlog 23 – Deisebau'r Cyhoedd.

Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd ym mis Mai 2026.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ... 3**

**2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ... 3**

Statws y pwyllgor ... 3

Esbonio derbyniadwyedd deisebau a gweithredu ar ddeiseb ... 5

Cau deisebau ... 5

**3. Penderfyniad ... 6**

**Atodiad A: Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 23 a nodiadau esboniadol ... 7**

**Atodiad B – Rheol Sefydlog 23, fel y'i diwygiwyd ... 11**

# 1. Y cefndir

**1.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau at y Pwyllgor Busnes ar 28 Ionawr 2026 i ofyn iddo ystyried cynnig nifer o ddiwygiadau i Reol Sefydlog 23 – *Deisebau'r Cyhoedd* i'r Senedd.

**2.** Gwnaeth hynny wedi i'r Pwyllgor Deisebau ystyried gweithrediad y broses a'r trefniadau presennol ar gyfer deisebau, yn ogystal ag arferion mewn mannau eraill, gyda'r bwriad o wneud argymhellion cyn y Seithfed Senedd.

**3.** Mae'r diwygiadau a gynigir yn ymwneud â thair agwedd ar Reol Sefydlog 23:

- Rheol Sefydlog 23.1 ynghylch statws pwyllgor deisebau;
- Rheolau Sefydlog 23.4 – 23.10 ynghylch derbyniadwyedd deisebau a gweithredu ar ddeiseb; a
- Rheolau Sefydlog 23.11 – 23.12 ynghylch cau deisebau.

**4.** Nodir y cynigion hyn yn fanylach yn yr adran a ganlyn.

**5.** Hysbysodd y Pwyllgor Deisebau y Pwyllgor Busnes ei fod hefyd wedi cytuno i gynnig mân ddiweddariadau i Benderfyniad y Llywydd ynghylch Priod Ffurf Deisebau, ac y byddai'n rhoi cyngor i'r Llywydd ar wahân ar y mater hwnnw.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor Busnes

**6.** Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a gynigiwyd gan y Pwyllgor Deisebau yn ei gyfarfodydd ar 3 a 10 Chwefror 2026.

## Statws y pwyllgor

**7.** Mae Rheol Sefydlog 23.1 yn ei gwneud yn ofynnol neilltuo'r swyddogaethau a nodir yn y Rheol Sefydlog honno ynghylch deisebau'r cyhoedd i "bwyllgor neu bwyllgorau". Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu un pwyllgor deisebau pwrpasol.

**8.** Nododd y Pwyllgor Deisebau ei bod yn bosibl y bydd pwysau ar nifer y pwyllgorau y gellir eu sefydlu mewn Seneddau yn y dyfodol, a bod hynny'n golygu y gallai Pwyllgor Busnes yn y dyfodol gynnig y dylid cynnwys cyfrifoldeb am ymdrin â deisebau o fewn cylch gorchwyl neu gylchoedd gorchwyl pwyllgorau eraill. Nododd y Pwyllgor Deisebau ei fod "yn gryf o'r farn ei bod yn

bwysig i ddeisebwyr gael Pwyllgor Deisebau pwrpasol y gallant ymgysylltu'n uniongyrchol ag ef." Nododd y gall pwyllgor pwrpasol weithiau roi mwy o sylw i fater penodol na phwyllgor polisi arbenigol, er enghraifft oherwydd ymrwymiadau craffu eraill.

**9.** Felly, cynigiodd y Pwyllgor Deisebau newid i eiriad Rheol Sefydlog 23.1 a fyddai'n cael gwared ar yr opsiwn i Bwyllgor Busnes yn y dyfodol gynnig rhannu'r swyddogaeth o ymdrin â deisebau rhwng cylchoedd gorchwyl sawl pwyllgor.

**10.** Trafododd y Pwyllgor Busnes yr argymhelliad hwn yng nghyd-destun y gofynion ehangach ar y pwyllgorau a fydd yn ei olynu i sicrhau bod y pwyllgorau a sefydlir gan y Senedd yn cyflawni nifer o swyddogaethau. Yn ogystal â deisebau, mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifon Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 18);
- Cyllid (Rheolau Sefydlog 19 ac 20);
- Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (Rheol Sefydlog 21);
- Safonau Ymddygiad (Rheol Sefydlog 22); a
- Goruchwylio amryw o gyrff allanol megis Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Comisiwn Etholiadol.

**11.** At hynny, o dan Reol Sefydlog 16, rhaid i'r Pwyllgor Busnes gynnig bod strwythur yn cael ei sefydlu ar gyfer y pwyllgorau sy'n sicrhau, ymhlith pethau eraill, fod pob un o feysydd cyfrifoldeb y llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi, a phob mater sy'n ymwneud â swyddogaethau gweinidogion a chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn destun gwaith craffu gan bwyllgor neu bwyllgorau.

**12.** Nodwn mai'r farn gyffredinol yw bod yr arfer o sefydlu Pwyllgor Deisebau ar wahân, sef yr hyn sydd wedi digwydd ers cyflwyno proses ddeisebu ffurfiol yn 2007, wedi gweithio'n dda. Mae wedi cynnig cyfrwng uniongyrchol i'r cyhoedd allu craffu ar benderfyniadau a chynnig newidiadau i bolisïau a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn annog y pwyllgor a fydd yn ein holynu i barhau â'r arfer hwn pan fydd yn cynnig sefydlu strwythur ar gyfer y pwyllgorau yn y Seithfed Senedd.

**13.** Fodd bynnag, nid ydym wedi cytuno â'r cynnig a wnaed gan y Pwyllgor Deisebau i ddiwygio Rheol Sefydlog 23.1 ar yr adeg hon. Mae hynny am nad ydym am gyfyngu ar hyblygrwydd y Pwyllgor Busnes nesaf pan fydd yn gwneud

penderfyniadau ynghylch y strwythur y mae am ei gynnig ar gyfer y pwyllgorau yn y Senedd nesaf. Oherwydd maint y newidiadau y gallai fod eu hangen i arferion gweithio yn y Seithfed Senedd a thu hwnt, ein bwriad yw rhoi hyblygrwydd i'r pwyllgor a fydd yn ein holynu i ymateb i'r newidiadau hynny yn ôl yr angen.

## Esbonio derbyniadwyedd deisebau a gweithredu ar ddeiseb

**14.** Cynigiodd y Pwyllgor Deisebau ddiwygiadau i Reolau Sefydlog 23.4 a 23.8 er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir yr arfer presennol o ran y berthynas rhwng y meini prawf derbyniadwyedd ar gyfer deisebau a'r trothwy llofnodion.

**15.** Er mwyn i ddeiseb gael ei chyfeirio i'w hystyried gan y Pwyllgor Deisebau, rhaid iddi gydymffurfio â'r meini prawf derbyniadwyedd ar gyfer proses ddeisebau'r Senedd ac, ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, rhaid iddi gyrraedd y trothwy ar gyfer llofnodion (o leiaf 250 o lofnodion).

**16.** Nododd y Pwyllgor Deisebau mai'r farn, yn hanesyddol, oedd mai'r trothwy llofnodion oedd y maen prawf terfynol o ran derbyniadwyedd. Yr arfer ar hyn o bryd, fodd bynnag, yw dweud wrth ddeisebydd fod deiseb yn 'dderbyniadwy' i'w chyhoeddi ac ar agor i'w llofnodi pan fydd wedi bodloni'r meini prawf eraill a nodir yn Rheolau Sefydlog 23.2 - 23.4 – hynny yw, ei bod yn cydymffurfio â'r rheolau; ei bod ar y ffurf briodol; nad yw'n peri tramgwydd; a'i bod yn galw am gamau sydd o fewn cymhwysedd y Senedd.

**17.** Cynigiodd y Pwyllgor Deisebau hefyd y dylid diwygio Rheol Sefydlog 23.7 i gyfeirio at gyhoeddi penderfyniadau ynghylch derbyniadwyedd deisebau fel 'cofnod' o benderfyniadau yn hytrach na 'chofrestr'. Mae'n cynnig y dylid gwneud y newid hwn er eglurder ac er mwyn adlewyrchu'r arfer mewn rhannau eraill o'r Rheolau Sefydlog.

**18.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Reolau Sefydlog 23.4, 23.7 a 23.8 i'r Senedd.

## Cau deisebau

**19.** Nododd y Pwyllgor Deisebau y gall y gwahaniaeth rhwng 'cau' eu deiseb ar gyfer llofnodion a'i 'chau' gan y Pwyllgor Deisebau ar ôl iddi gael ei hystyried gan yr Aelodau weithiau beri dryswch i ddeisebwyr.

**20.** Mae wedi cynnig y dylid diwygio'r geiriad yn Rheol Sefydlog 23.11 a'r pennawd yn union o'i blaen er mwyn amlinellu'n gliriach y camau ar gyfer ystyried derbyniadwyedd, cyfeirio deiseb i'w hystyried gan bwyllgor, a

phenderfynu cau deiseb sydd wedi bod yn cael ei hystyried. Mae'r Pwyllgor Deisebau o'r farn y bydd y newidiadau'n cynnig mwy o eglurder i ddeisebwyr ac yn adlewyrchu'r arfer sefydledig yn well.

**21.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y diwygiadau y gofynnwyd amdanynt i Reol Sefydlog 23.11 a'r pennawd o'i blaen i'r Senedd.

# 3. Penderfyniad

**22.** Ar 10 Chwefror 2026, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y diwygiadau i Reol Sefydlog 23 a nodir yn Atodiad A i'r Senedd. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog arfaethedig fel y'u nodir yn Atodiad B.

# Atodiad A: Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 23 a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 23 – Deisebau'r Cyhoedd** | | |
|---|---|---|
| **Y Pwyllgor neu Bwyllgorau** | | Cadw'r pennawd |
| **23.1** | Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 23 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 23 fel "pwyllgor cyfrifol"). | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **Ffurf Deisebau** | | Cadw'r pennawd |
| **23.2** | Rhaid i ddeiseb nodi'n glir:<br>(i) enw'r deisebydd, a gaiff fod yn berson unigol (heblaw Aelod) sy'n preswylio yng Nghymru, neu yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig o bersonau â safle yng Nghymru;<br>(ii) cyfeiriad y deisebydd y dylai pob gohebiaeth ynghylch y ddeiseb gael ei hanfon iddo; a<br>(iii) enwau a chyfeiriadau unrhyw berson sy'n cefnogi'r ddeiseb. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **23.3** | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar briod ffurf deisebau a rhaid iddo gyhoeddi ei benderfyniadau. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **Derbyniadwyedd Deisebau** | | Cadw'r pennawd |

| | | |
|---|---|---|
| **23.4** | Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:<br>(i) ~~os yw'n cynnwys llai na 250 o lofnodion~~[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mawrth 2026];<br>(ii) os yw'n methu â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 23.2 neu os nad yw yn y briod ffurf mewn ffordd arall;<br>(iii) os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;<br>(iv) os yw'n gofyn i'r Senedd wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Senedd bŵer i'w wneud; neu<br>(v) os yw yr un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn yn gynt. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r diwygiad arfaethedig yn dileu'r cyfeiriad at y trothwy llofnodion ar gyfer deisebau o'r meini prawf derbyniadwyedd, er mwyn iddo ddod yn rhan o Reol Sefydlog 23.8 yn lle hynny. |
| **23.5** | *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Senedd ar 8 Mawrth 2017]* | |
| **23.6** | Rhaid i'r Llywydd ystyried a phenderfynu mewn anghydfod a yw deiseb yn dderbyniadwy a rhaid iddo hysbysu'r deisebydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **23.7** | Rhaid i'r Llywydd gyhoeddi ~~cofrestr~~cofnod o'r penderfyniadau a wnaed o dan Reol Sefydlog 23.6. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r diwygiad arfaethedig yn diweddaru'r cyfeiriad at natur y rhestr o benderfyniadau ar dderbyniadwyedd deisebau a gyhoeddir gan y Llywydd, er mwyn adlewyrchu'r arfer presennol yn well. |
| **Gweithredu ar Ddeiseb** | | Cadw'r pennawd |
| **23.8** | Os yw deiseb yn dderbyniadwy, ac yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ei hystyried, rhaid i'r Llywydd gyfeirio'r ddeiseb | Diwygio'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| | honno at bwyllgor cyfrifol. Y trothwy ar gyfer ystyried deiseb gan bwyllgor cyfrifol yw 250 o lofnodion. | Mae'r diwygiad arfaethedig yn ychwanegu cyfeiriad at y trothwy llofnodion ar gyfer deisebau, er mwyn egluro mai pan gyfeirir deiseb at bwyllgor ar gyfer camau pellach y daw'r trothwy llofnodion yn ystyriaeth berthnasol (yn hytrach nag wrth benderfynu ar dderbyniadwyedd y ddeiseb). |
| **23.9** | Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol:<br>(i) cyfeirio'r ddeiseb at y llywodraeth, unrhyw un arall o bwyllgorau'r Senedd neu unrhyw berson neu gorff arall iddynt hwythau gymryd unrhyw gamau y credant eu bod yn briodol;<br>(ii) cyflwyno adroddiad i'r Senedd; neu<br>(iii) cymryd unrhyw gamau eraill y mae'r pwyllgor yn credu eu bod yn briodol. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **23.10** | Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hysbysu'r deisebydd am unrhyw gamau a gymerwyd o dan Reol Sefydlog 23.9. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| **Cau'r Broses o Ystyried Deisebau** | | Diwygio'r pennawd<br>Mae'r diwygiad hwn yn ceisio gwahaniaethu rhwng cau deiseb ar gyfer llofnodion a'i chau ar ôl i'r pwyllgor ei hystyried. |
| **23.11** | Caiff pwyllgor cyfrifol gau'r broses o ystyried deiseb ar unrhyw adeg. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r diwygiad hwn yn ceisio gwahaniaethu rhwng cau deiseb ar gyfer llofnodion a'i chau ar ôl i'r pwyllgor ei hystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| **23.12** | Pan fydd pwyllgor cyfrifol yn cau deiseb, rhaid iddo hysbysu'r deisebydd fod y ddeiseb wedi'i chau a'i hysbysu am y rhesymau dros ei chau. | Cadw'r Rheol Sefydlog |

# Atodiad B – Rheol Sefydlog 23, fel y'i diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 23 – Deisebau'r Cyhoedd

### Y Pwyllgor neu Bwyllgorau

23.1 Wrth gynnig cylchoedd gorchwyl pwyllgorau o dan Reol Sefydlog 16.2 neu 16.3, rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y cyfrifoldeb dros y swyddogaethau a bennir yn Rheol Sefydlog 23 yn cael ei aseinio i bwyllgor neu bwyllgorau (y cyfeirir ato neu atynt yn Rheol Sefydlog 23 fel "pwyllgor cyfrifol").

### Ffurf Deisebau

23.2 Rhaid i ddeiseb nodi'n glir:

(i) enw'r deisebydd, a gaiff fod yn berson unigol (heblaw Aelod) sy'n preswylio yng Nghymru, neu yn gorff corfforaethol neu'n gymdeithas anghorfforedig o bersonau â safle yng Nghymru;
(ii) cyfeiriad y deisebydd y dylai pob gohebiaeth ynghylch y ddeiseb gael ei hanfon iddo; a
(iii) enwau a chyfeiriadau unrhyw berson sy'n cefnogi'r ddeiseb.

23.3 Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar briod ffurf deisebau a rhaid iddo gyhoeddi ei benderfyniadau.

### Derbyniadwyedd Deisebau

23.4 Nid yw deiseb yn dderbyniadwy:

*(i) [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mawrth 2026]*
(ii) os yw'n methu â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 23.2 neu os nad yw yn y briod ffurf mewn ffordd arall;
(iii) os yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd;
(iv) os yw'n gofyn i'r Senedd wneud unrhyw beth y mae'n eglur nad oes gan y Senedd bŵer i'w wneud; neu
(v) os yw yr un fath, neu i raddau helaeth yr un fath, â deiseb a gaewyd lai na blwyddyn yn gynt.

23.5 *[Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Senedd ar 8 Mawrth 2017]*

23.6 Rhaid i'r Llywydd ystyried a phenderfynu mewn anghydfod a yw deiseb yn dderbyniadwy a rhaid iddo hysbysu'r deisebydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto.

23.7 Rhaid i'r Llywydd gyhoeddi cofnod o'r penderfyniadau a wnaed o dan Reol Sefydlog 23.6.

## Gweithredu ar Ddeiseb

23.8 Os yw deiseb yn dderbyniadwy, ac yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ei hystyried, rhaid i'r Llywydd gyfeirio'r ddeiseb honno at bwyllgor cyfrifol. Y trothwy ar gyfer ystyried deiseb gan bwyllgor cyfrifol yw 250 o lofnodion.

23.9 Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol:
(i) cyfeirio'r ddeiseb at y llywodraeth, unrhyw un arall o bwyllgorau'r Senedd neu unrhyw berson neu gorff arall iddynt hwythau gymryd unrhyw gamau y credant eu bod yn briodol;
(ii) cyflwyno adroddiad i'r Senedd; neu
(iii) cymryd unrhyw gamau eraill y mae'r pwyllgor yn credu eu bod yn briodol.

23.10 Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hysbysu'r deisebydd am unrhyw gamau a gymerwyd o dan Reol Sefydlog 23.9.

## Cau'r Broses o Ystyried Deisebau

23.11 Caiff pwyllgor cyfrifol gau deiseb ar unrhyw adeg.

23.12 Pan fydd pwyllgor cyfrifol yn cau deiseb, rhaid iddo hysbysu'r deisebydd fod y ddeiseb wedi'i chau a'i hysbysu am y rhesymau dros ei chau.